
ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

15 Hydref 2026

**TEITL STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL
BLYNYDDOL 2026/2027**

AWDUR LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2026/27 wedi'u hatodi i'w hadolygu a'u hystyried gan yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. CEFNDIR

Strategaeth Archwilio Mewnol

- 2.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), yn benodol Safon 9.2 "Strategaeth Archwilio Mewnol" yn nodi bod rhaid i'r prif weithredwr archwilio¹ ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol newydd wedi'i datblygu sy'n alinio'r blaenoriaethau, yr amcanion a'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r sefydliad i gyd-fynd â gwaith y swyddogaeth archwilio. Mae hyn yn helpu i ddarparu cyfeiriad strategol i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei ymagwedd at gyflawni ei amcanion allweddol ac yn dyrannu adnoddau archwilio mewnol yn briodol.

- 2.2 Mae'r Safon yn nodi bod yn rhaid i'r strategaeth archwilio mewnol gynnwys gweledigaeth, amcanion strategol, a mentrau cefnogol ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol. Mae'r strategaeth archwilio mewnol yn helpu i lywio'r swyddogaeth archwilio mewnol tuag at gyflawni'r mandad archwilio mewnol.

Cynllun Archwilio Mewnol

- 2.3 Mae Safon 9.4 "Cynllun Archwilio Mewnol" y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn nodi bod yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio greu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad.

¹Rheolwr Archwilio

2.4 Mae'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol, gan gynnwys y casgliad blynyddol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau, a pherfformiad archwilio mewnol yn erbyn ei amcanion.

2.5 Er mwyn i archwilio mewnol barhau i fod yn berthnasol, rhaid iddo addasu i ddisgwyliadau sy'n newid a sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn hanfodol i barhau i fod yn berthnasol – yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cost a gwerth, gan wneud cyfraniadau ystyrlon at lywodraethu cyffredinol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, rheoli risg, a rheolaethau mewnol.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027 a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.

4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau Ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1 Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol yng nghorff yr adroddiad.

ATODIAD A:

Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2026/2027

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Bwriad y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yw cefnogi cyflawniad swyddogaeth archwilio fewnol annibynnol sy'n seiliedig ar risg, gan roi sicrwydd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CBC. Yn amodol ar fodloni'r Is-bwyllgor bod y Strategaeth a'r Cynllun arfaethedig yn darparu sylw priodol i brif risgiau'r CBC a bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r Cynllun, rwy'n fodlon bod yr argymhellion yn gyson â threfniadau llywodraethu'r CBC ac nad ydynt yn codi unrhyw bryderon cyfreithiol penodol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi trafod cynnwys y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol gyda'r Rheolwr Archwilio yn ystod y broses o'u datblygu ac rwyf yn fodlon gyda'u cynnwys.